

Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru



O ran iechyd
byd-eang, nid ydyn
'nhw' yn bodoli...
dim ond 'ni'.

Cyngor Iechyd Byd-eang

Cydnabyddiaeth

Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC) trwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, Cryfhau Ein Cysylltiadau, ddatblygodd Siarter Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru. Cafodd y ddogfen ei golygu gan Lauren Ellis, Swyddog Cymorth Prosiect IHCC, Iechyd Cyhoeddus Cymru; Yr Athro Mark A. Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu, Iechyd Cyhoeddus Cymru gydag aelodau'r grŵp Su Mably, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru; Malcolm Ward, Prif Arbenigwr Hybu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru; Chris Riley, Cyngorydd Polisi, Llywodraeth Cymru; Tei Sheraton, Arweinydd Clinigol Iechyd Rhyngwladol ac Anesthetydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB); Gill Richardson, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, ABUHB; Beth Houghton, Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica; Tony Jewell Cadeirydd Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica; Hannah Sheppard, Hub Datblygu Rhyngwladol.

Ymgynghoriad rhanddeiliaid –diolch i'r holl randdeiliaid a gyfrannodd at ddatblygiad y ddogfen hon.

Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb Gweithredol ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol	4
Beth yw Siarter?	5
Cyflwyniad	6
Y Cyd-destun Cymreig	6
Y Cyd-destun Byd-eang	7
Y Siarter: Ein Haddewid	8
Sylfeini Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol	10
Nodiadau Canllaw ar gyfer Gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol	12
Arddangos Cyfrifoldebau Sefydliadau wedi eu Rheoli'n Dda	12
Arddangos Gwaith Partneriaeth Dwyochrog	14
Arddangos Trefniadau Arfer Da	15
Arddangos Trefniadau Llywodraethu Cadarn	16
Beth yw Llwyddiant?	18
Diffiniad o Delerau Allweddol	24
Atodiad	27
Cyfeiriadau	28

Rhagair

Mae'n arwydd o wlad agored, ymgysylltiedig ein bod ni yng Nghymru yn awyddus i weithio gyda phobl o wledydd eraill er mwyn rhannu gwybodaeth a gwella iechyd.



Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig, yn arbennig gan ei fod yn cynnwys pobl o sector y wladwriaeth, ei fod yn cael ei wneud yn dda, i safon uchel gyda'r bwriad o gael effaith sylweddol fydd o fudd i Gymru a gwledydd partner. Dyma'r hyn yr wyf yn ei ystyried fel gwerth y Siarter hon.

Gobeithio bydd y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol o gymorth i gydgrynhoi a datblygu enw da a chyflawniad Cymru yn y maes hwn ac y bydd yn annog sefydliadau ac unigolion i ymuno a pharhau i ddatblygu'r gydberthynas sydd o fydd i'r ddwy ochr ar draws y byd.

Mark Drakeford

Mark Drakeford AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



Mae gan Gymru gofnod hir a sefydlog ym maes iechyd rhyngwladol gyda pherthynas sefydledig sy'n datblygu o'r newydd ar draws y byd.



Mae'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Rhyngwladol yn cynrychioli ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Sefydliadau Iechyd Cymru i gefnogi'r agenda iechyd rhyngwladol yng Nghymru. Mae pwysigrwydd cynyddol i hyn yn y byd newidiol sydd ohoni, gyda phwysau cynyddol ar ein systemau iechyd i ddarparu'r gofal iechyd gorau posibl ar gyfer Dinasyddion Cymru. Er bod anghydraddoldebau iechyd byd-eang annerbyniol yn parhau rhwng gwledydd datblygol a datblygedig, ceir hefyd annhegwch sylweddol o ran disgwyliad oes rhwng Cymru a Rhanbarthau eraill Ewrop, ac nid ni yn unig sy'n wynebu heriau fel pwysau ariannol cynyddol, poblogaeth sy'n heneiddio, bygythiadau byd-eang i iechyd sy'n dod i'r amlwg a baich parhaus clefydau anhrosglwyddadwy.

Yn y byd modern, mae globaleiddio yn cyflwyno heriau o ran rheoli clefydau trosglwyddadwy gyda'r enghreifftiau diweddar o glefyd feirws Ebola a ffliw adar yn amlygu cyflymder a'r pellter y mae achosion yn gallu teithio bellach mewn cyfnod byr iawn. Yn yr un modd, mae angen i'r gymuned iechyd ehangach ymateb yn gyflym ac yn gydlynus i effaith argyfyngau naturiol, fel llifogydd neu newyn, a thrychinebau wedi eu hachosi gan ddyn. Mae Cymru wedi ac yn cyfrannu at ymdrechion rhyngwladol i gynorthwyo'r gwledydd hynny a'r bobl sy'n cael eu heffeithio.

Mae'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yn cydnabod dilysrwydd ymgysylltu iechyd rhyngwladol, gyda'r nod o ddod â gwybodaeth a sgiliau yn ôl i Gymru er mwyn gwella iechyd Dinasyddion Cymru ynghyd â rhannu ein harfer gorau a gweithio gydag ystod o wledydd. Trwy ymgysylltu â mentrau rhyngwladol gallwn ddysgu oddi wrth eraill a gweithio i leihau anghydraddoldebau tra'n rhannu ein profiadau a'n cryfderau yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod ein gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n teithio at ddibenion gwaith wedi eu hyswirio, eu diogelu a'u paratoi'n iawn cyn teithio er mwyn eu cynorthwyo i gynrychioli Cymru hyd eithaf eu gallu a'u bod yn gallu adrodd yn ôl a rhannu'r hyn y maent wedi ei ddysgu ar ôl dychwelyd.

Hoffwn ddiolch i'r rheiny sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r ddogfen hon. Mae eich ymatebion wedi helpu i sicrhau bod y Siarter bwysig hon yn adlewyrchu'r anghenion a dyheadau penodol yng Nghymru yn y ffordd fwyaf penodol a hoffwn annog sefydliadau iechyd yng Nghymru i ymrwymo i'r Siarter.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Tracey Cooper', written in a cursive style.

**Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr,
Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Crynodeb Gweithredol ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol

Mae'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru, a ddatblygwyd gan Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn seiliedig ar hanes Cymru o gyflawniad a dysg yn y maes hwn ac mae'n amlinellu'r pedwar sylfaen ar gyfer partneriaethau iechyd rhyngwladol llwyddiannus.

Y llofnodwyr yw'r sefydliadau iechyd yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i'r sylfeini hyn, sy'n gwerthfawrogi ac yn cydnabod buddion ein partneriaid dramor yn ogystal â'r buddion i'r GIG a chleifion yng Nghymru.

Bydd yr IHCC yn gweithredu fel ceidwad y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol. Mae'n ddogfen fyw fydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan yr IHCC.

Bydd gwybodaeth a diweddariadau'n cael eu darparu ar wefan IHCC yn www.internationalhealth.wales.nhs.uk.

Gellir cysylltu â'r IHCC yn international.health@wales.nhs.uk.



Beth yw Siarter?

Mae Siarter yn gallu egluro cyfeiriad mudiad penodol, partneriaethau iechyd rhyngwladol yn yr achos hwn, gan hyrwyddo tegwch a strwythur clir ar gyfer sefydliadau iechyd Cymru. Mae'n gallu arwain gweithredu er mwyn cyflawni nodau cyffredin, fel y nodir yn nodiadau canllaw Sylfeini Iechyd Rhyngwladol ar gyfer gweithredu'r Siarter.

Pam mae angen Siarter Cymru?

Bwriad y Siarter hon yw sefydlu lefel safonol o waith partneriaeth sy'n sicrhau bod egwyddorion a gwerthoedd ehangach y GIG yn cael eu hadlewyrchu yn ein gweithgaredd iechyd rhyngwladol (gweler yr atodiad). Mae ymrwymiad Cymru i ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth, dysgu a rennir a phartneriaeth yn seiliedig ar degwch a cheisio cael buddion gwirioneddol ar y cyd yn ymestyn i weithgaredd rhyngwladol.

Pa fudd mae'n ei gynnig i Gymru?

Mae gan Gymru hanes hir o fod yn rhan o bartneriaethau iechyd rhyngwladol, sydd yn arwain y ffordd yn y DU yn aml, gyda staff yn gweithio gydag ac mewn gwledydd ar draws y byd. Er mwyn cael y gorau i bawb sydd yn gysylltiedig â'r partneriaethau hyn, yn y byd datblygol neu ddatblygedig, mae angen i ni sicrhau bod gennym ymdrech broffesiynol, gydlynus.

Bydd y Siarter hon o fudd i Gymru trwy sicrhau bod ymgysylltu â gweithgaredd rhyngwladol yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn gwella enw da Cymru yn rhyngwladol, ac yn creu gwelliannau y gellir eu gweld i Gymru a'i phartneriaid dramor. Bydd yn sefydlu gwaith o'r fath fel rhan ddilys, gdnabyddedig o'r ffordd yr ydym yn gweithredu yn y byd modern.

Ar gyfer pwy y mae'r Siarter?

Nod y Siarter hon yw helpu'r rheiny sy'n gweithio mewn partneriaethau iechyd rhyngwladol mewn sefydliadau iechyd yng Nghymru a thu hwnt i gyflawni'r gorau sy'n bosibl iddynt eu hunain a'r rheiny y maent yn gweithio gyda nhw.



Pwy yw'r Llofnodwyr?

Y llofnodwyr yw sefydliadau iechyd Cymru sy'n gweithio mewn partneriaethau iechyd rhyngwladol sydd wedi ymrwymo i gryfhau ymrwymiad Cymru i'r gwaith hwn.

Mae rhestr lawn o'r llofnodwyr ar gael ar wefan IHCC, caiff hwn ei ddiweddarw wrth i lofnodwyr newydd gael eu derbyn.

Pa Rhanddeiliaid eraill sydd?

Rhanddeiliaid yw'r rheiny sy'n gweithio mewn meysydd sy'n gysylltiedig â phartneriaethau iechyd rhyngwladol ac sy'n cefnogi gwaith y Siarter, ond efallai nad yw llofnodi'r Siarter yn briodol ar eu cyfer.

Mae rhestr lawn o'r rhanddeiliaid ar gael ar wefan IHCC a chaiff ei diweddarw yn unol â hynny.

Y Cyd-destun Cymreig

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r agenda iechyd rhyngwladol. Cafodd hyn ei gadarnhau yn 2012, pan gafodd Fframwaith Llywodraeth Cymru 'Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd' ei lansio, gan ddatblygu a chryfhau ymrwymiad 2006 i **Nodau Datblygu'r Mileniwm** (MDG) a chydabod pwysigrwydd ymgysylltu â gwledydd y tu allan i Gymru. Roedd **Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd** ledled Cymru eisoes wedi cael eu hannog, trwy Gylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070, i ymuno â'r ymdrech fyd-eang i weithio gydag Affrica Is-Sahara a systemau iechyd datblygol eraill i wella iechyd ac ansawdd bywyd. Ers hynny, mae llawer o sefydliadau iechyd ac unigolion yng Nghymru wedi gweithio i gefnogi'r agenda hon.

Trwy'r Undeb Ewropeaidd (UE), mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod blaenoriaethau penodol. Bydd y rhain yn newid, ond ar hyn o bryd maent yn cynnwys; gwyddorau bywyd, carbon isel, ynni a'r amgylchedd, a pheirianeg uwch a deunyddiau, trwy fentrau fel **Horizon 2020**. Mae llawer o agenda'r UE, yn arbennig mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac asesu'r effaith ar iechyd, yn ategu ymagwedd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2012).



Mae'r dyddiad targed, sef 2015, ar gyfer yr MDG yn agosáu, er bod rhai wedi cael eu cwblhau cyn y dyddiad hwn. Mae amrywiadau sylweddol o ran llwyddiant o fewn a rhwng gwledydd. Er mwyn datblygu'r momentwm sydd wedi cael ei greu gan yr MDG yn yr agenda Ôl-2015, mae'r **Nodau Datblygu Cynaliadwy** (SDG) yn cael eu datblygu. Bydd y rhain yn gweithredu fel symbylydd ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio datblygu cynaliadwy yn system y **Cenhedloedd Unedig** (CU) yn gyffredinol. Bydd yr SDG yn berthnasol i bob gwlad, tra'n ystyried amgylchiadau cenedlaethol gwahanol, galluoedd a lefelau datblygiad a pharchu polisiau a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae gan Gymru ymrwymiad cryf i'r agenda datblygu cynaliadwy, trwy fentrau fel Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (2009), Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Siarter Datblygu Cynaliadwy, y mae sefydliadau Cymru'n ymuno ag ef ac sydd wedi cael cydnabyddiaeth ryngwladol yn Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel y CU ar Ddatblygu Cynaliadwy (Cynnal Cymru 2014).

Y Cyd-destun Byd-eang

Gall ymgysylltu â phartneriaethau iechedd rhyngwladol o bosibl fynd i'r afael â llawer o faterion, yn cynnwys ymatebion dyngarol, ymwrthedd gwrthficrobaidd a thwristiaeth. Dyma rai ohonynt yn fanylach.

Clefydau Trosglwyddadwy ac Anhrosglwyddadwy

Mae ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol naturiol, yn ogystal â datblygiadau technegol, yn dylanwadu'n gadarnhaol ac yn negyddol ar fater globaleiddio clefydau (WHO 2004). Ni ddylid amcangyfrif perygl clefydau heintus yn rhy isel; mae symudedd cynyddol pobl, nwyddau a gwasanaethau masnachu yn golygu ei fod yn hanfodol deall y perygl posibl. Bydd mwy o gydweithredu mewn diogelwch iechedd byd-eang yn helpu i amddiffyn rhag pandemig.

Mae clefydau anhrosglwyddadwy (NCD), fel diabetes a chlefyd cardiofasgwlaidd yn rhoi mwy o bwysau ar systemau iechedd, yn arbennig mewn gwledydd incwm isel a chanolig, lle mae 80% o farwolaethau'n digwydd o ganlyniad i NCD (WHO 2013). Gall gweithio gyda mentrau iechedd byd-eang, fel lleihau'r halen a ddefnyddir mewn bwyd gan gwmnïau rhyngwladol, fod o fudd i'r boblogaeth leol trwy ganlyniadau cadarnhaol fel gostyngiadau mewn pwysedd gwaed (WASH 2014).

Mudo a Gweithwyr Iechedd

Mae dros 214 miliwn o bobl yn byw y tu allan i'w gwledydd genedigol (Sefydliad Mudo Rhyngwladol 2013). Mae gweithwyr iechedd proffesiynol sy'n mudo i wledydd mwy cyfoethog yn creu prinder a bylchau yn y system iechedd, mewn ardaloedd o'r byd lle mae'r angen mwyaf yn aml. Gall hyn arwain at fwy o anghydraddoldebau iechedd. Mae recriwtio gweithwyr iechedd yn foesebol yn hanfodol.

Symudedd Cleifion

Fel aelod o'r UE, mae gan drigolion Cymru yr hawl i ofal ar draws ffiniau. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion hawl i gael eu trin am broblemau meddygol mewn rhai gwledydd Ewropeaidd eraill, a chael ad-daliad yn eu gwlad eu hunain am unrhyw gostau cymwys. Ceir hefyd sicrwydd o safon gofal, nad yw'n cael ei fodloni, efallai, mewn rhai gwledydd nad ydynt yn aelod o'r UE.



Datblygiadau mewn Technoleg

Trwy weithio ar raddfa byd-eang, gall defnyddio partneriaethau a chydweithredu gynorthwyo datblygiadau mewn technoleg a dysgu oddi wrth eraill. Mae datblygiadau mewn technoleg feddygol wedi dileu y frech wen a bron wedi dileu polio. Gellir defnyddio technoleg fel ffonau symudol i rannu dysgu mewn ardaloedd a thargedu poblogaethau a fyddai fel arall yn anodd i'w cyrraedd.

Er mwyn mynd i'r afael â'r agenda iechedd rhyngwladol, mae'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechedd Rhyngwladol wedi cael ei datblygu.

Cryfhau Systemau Iechedd a Chwmpas Iechedd Cyffredinol

Yn 2012, llofnododd y CU benderfyniad ar gwmpas iechedd cyffredinol. Mae iechedd yn fater polisi trawsbynciol pwysig yn yr agenda rhyngwladol, ac mae'r penderfyniad yn annog llywodraethau i symud tuag at ddarparu gwasanaethau gofal iechedd fforddiadwy, o ansawdd uchel i bawb. Dylai ein Partneriaethau Iechedd Rhyngwladol geisio cryfhau systemau iechedd.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn her gymharol anodd o ran effaith ar iechedd dynol, mae'n amlwg os bydd ecosystem y byd yn dirywio bydd hyn yn effeithio ar iechedd dynol sydd eisoes yn cael ei weld mewn materion fel llygredd aer. Trwy ddilyn arferion amgylcheddol gynaliadwy, gellir lleihau ein heffaith ar newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r agenda iechedd rhyngwladol, mae'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechedd Rhyngwladol wedi cael ei datblygu.

Y Siarter: Ein Haddewid

Rydym ni, llofnodwyr y Siarter hon, yn cytuno i egwyddorion Sylfeini Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol a byddwn yn eu gweithredu yn ein partneriaethau rhyngwladol i gyd.

Wrth drefnu ein hunain i gefnogi ymgysylltu rhyngwladol byddwn yn:

- ✓ Enwebu man cyswllt er mwyn i bartneriaethau iechyd rhyngwladol gysylltu â'r IHCC a staff. Bydd gwybodaeth yn cael ei phostio ar fewnwyd sefydliadau iechyd. **(OR8)**
- ✓ Sicrhau bod ein polisiâu absenoldeb arbennig yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac yn hygyrch i staff yn ein sefydliad. **(OR1)**
- ✓ Sicrhau bod ymgysylltu rhyngwladol yn cael ei gydnabod fel Datblygiad Proffesiynol Parhaus. **(OR2)**
- ✓ Caniatáu absenoldeb arbennig trwy weithdrefnau wedi eu sefydlu, ar yr amod bod asesiadau cyn ac ar ôl absenoldebau'n cael eu cwblhau gan staff fel rhan o'u cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus. **(OR1/OR2)**
- ✓ Gweithio'n gydweithredol ac yn ddarvoudus er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael a lleihau dyblygu yn y Fforwm ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol. **(OR3)**

Wrth ymgysylltu'n rhyngwladol byddwn yn:

- ✓ Dilyn egwyddor y GIG o wella bywydau a pheidio gwneud unrhyw niwed. **(RW1)**
- ✓ Seilio ein partneriaethau i gyd ar barch ar y ddwy ochr. **(RW2)**
- ✓ Gwneud trefniadau ffurfiol, fel Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ar lefel sefydliadol. **(SG1)**
- ✓ Cynnal asesiad risg a rheoli risg pan fydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn teithio'n rhyngwladol gyda'u gwaith. Mae hyn yn cynnwys darparu yswiriant teithio digonol. **(RW3/SG2)**
- ✓ Cynnal **asesiadau angen** ar gyfer prosiectau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli. **(GP2)**
- ✓ Ceisio cryfhau systemau iechyd presennol a pheidio cynnig gofal iechyd amgen yn ein partneriaethau iechyd. **(RW4)**
- ✓ Ymdrechu i sicrhau bod gwrthbwysu carbon yn cael ei gymhwyso i deithio rhyngwladol. **(OR4)**
- ✓ Sicrhau bod safonau **Sefydliad Iechyd y Byd** (WHO) ar roddion meddygol yn cael eu bodloni wrth roi offer a chyflenwadau meddygol i bartneriaid rhyngwladol. **(OR5)**
- ✓ Ymrwymo i gynnal ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth a pheidio peryglu ansawdd gwaith pan fydd diffyg dystiolaeth. **(GP1)**

I gefnogi dysgu o'n gwaith ymgysylltu rhyngwladol byddwn yn:

- ✓ I gefnogi dysgu o'n gwaith ymgysylltu rhyngwladol byddwn yn. **(SG3)**
- ✓ Monitro a gwerthuso prosiectau ac yn cyflwyno adroddiadau prosiect yn flynyddol i weld effaith y gwaith, gan adlewyrchu ar yr asesiadau angen a'r buddion i Gymru. **(GP3)**
- ✓ Cyhoeddi adroddiadau gan y rheiny sy'n gweithio gyda phartneriaethau rhyngwladol yn y sefydliad ar fformat safonol a rhannu'r adroddiadau hynny gyda'r IHCC. **(SG4/OR3)**

Yn ein gwaith arferol byddwn yn:

- ✓ Dilyn canllawiau'r **Adran Iechyd** a'r WHO yn ymwneud â recriwtio personél gofal iechyd rhyngwladol. **(OR6)**
- ✓ Cefnogi gweithdrefnau ymateb dyngarol brys rhyngwladol wedi eu cydlynu mewn cydweithrediad â'r **Adran Datblygu Rhyngwladol** (DfID) ac yn hyrwyddo'r rhain i'r staff. **(OR7)**
- ✓ Ymgysylltu â'r sefydliad cyfan trwy **ddinasyddiaeth fyd-eang** er mwyn cyfreithloni pwysigrwydd cysylltiadau rhyngwladol. **(GP4)**
- ✓ Ymgynghori â sefydliadau **Alltud** pan fyddant ar gael. **(RW6)**
- ✓ Nodi cyfleoedd i gydweithredu'n rhyngwladol a thynnu cyllid i mewn. **(RW5)**

DS: Mae'r côd ar ddiwedd pob ymrwymiad yn cyfeirio at y Sefydliad Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol perthnasol a'r nodyn canllaw ategol.

Sylfeini Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol

01

Cyfrifoldebau Sefydliadol (OR)

Mae ymgysylltu sefydliadol cryf ac ymrwymiad yn hanfodol. Gallai hyn gynnwys cefnogaeth am absenoldeb arbennig, darparu adnoddau i gefnogi datblygiad partneriaethau iechyd a phrosesau sefydliadol gan adrodd ar lefel weithredol ar Bartneriaethau Iechyd Rhyngwladol.

02

Gwaith Partneriaeth Dwyochrog (RW)

Mae'n hanfodol cael perthynas gydweithredol rhwng dau barti neu fwy yn seiliedig ar ymddiriedaeth, parch a dealltwriaeth o gyflawni nodau penodol er budd y ddwy ochr.



Trwy ymgysylltu ag iechyd rhyngwladol rydym yn ceisio hyrwyddo arbenigedd gweithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru, gan rannu egwyddorion cyffredin gyda phartneriaid a dysgu ffyrdd newydd a gwell o weithio y gallwn ddod â nhw yn ôl i'r GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cryfhau ein hymrwymiad i weithredu yn seiliedig

ar dystiolaeth gadarn a chydweithredu parchus, sy'n hyrwyddo tegwch iechyd o fewn a rhwng gwledydd. Mae Sylfeini Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yn cael eu gosod er mwyn sicrhau dull clir a chyson o ymgysylltu rhyngwladol. Mae pedwar Sylfaen Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol, bob un yr un mor bwysig.

03

Arfer Da (GP)

Mae dull yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n chwilio am ganlyniadau cadarnhaol y dylid eu dathlu, a diwylliant agored sy'n barod i ddysgu pan fydd pethau'n mynd o'i le yn hanfodol.

04

Llywodraethu Cadarn (SG)

Mae nodau, amcanion a meysydd cyfrifoldeb wedi eu cytuno'n glir ar gyfer yr holl bartneriaid sy'n gysylltiedig â'r partneriaethau yn hanfodol.



Nodiadau Canllaw ar gyfer Gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol

Darperir y wybodaeth hon i roi mwy o fanylion ar gyflawni'r Siarter a Sylfeini Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol.


Arddangos Cyfrifoldebau Sefydliadol wedi eu Rheoli'n Dda

OR1. Absenoldeb Arbennig

Yn unol â chanllawiau presennol a amlinellir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070 a dogfen fframwaith Llywodraeth Cymru 'Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd' mae ymrwymiad polisi wedi cael ei wneud i gefnogi absenoldeb arbennig ar gyfer y rheiny sy'n gysylltiedig â phrosiectau sy'n gweithio rhwng Affrica Is-Sahara a systemau iechyd datblygol eraill. Bydd ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i'r rheiny sy'n gweithio mewn rhanbarthau daearyddol eraill.

OR2. Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Mae cyfranogiad mewn partneriaethau rhyngwladol, sy'n cael ei gymeradwyo gan y sefydliad, yn cael ei gydnabod yn ffurfiol i fod yn cyfrannu at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Mae datblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth y rheiny sy'n gysylltiedig ag iechyd rhyngwladol yn cael ei gydnabod. Nid yw hyn yn gyfyngedig i'r rheiny sy'n teithio'n rhyngwladol yn ymwneud â'r agenda iechyd, ond mae hefyd yn cynnwys ymgysylltu o bell trwy weithgareddau fel hyfforddiant ac ymchwil.



Fel amod ar gyfer caniatáu absenoldeb arbennig, bydd y cyfranogwyr yn cwblhau asesiadau cyn ac ar ôl yr absenoldeb i bennu sut mae eu rôl broffesiynol yng Nghymru wedi datblygu fel rhan o'u cynllun DPP.

OR3. Dysgu ar y Ddwy Ochr a Rhannu'r Gwersi a Ddysgwyd

Dylai dysgu yn sgil cyfranogiad mewn partneriaethau iechyd rhyngwladol gael ei rannu yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau i gynyddu ymwybyddiaeth, lleihau dyblygu ac annog gweithio cydweithredol. Mae hyn yn berthnasol i bob parti sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth. Yn unol â GIG Cymru, mae partneriaethau iechyd rhyngwladol a'r rheiny sydd wedi ymuno â'r Siarter hon yn cefnogi diwylliant agored pan fydd problemau'n codi. Gellir dysgu gwersi defnyddiol os yw pethau'n mynd yn unol â'r cynllun, a all leihau'r perygl o eraill yn dod ar draws materion tebyg.

Bydd fforwm ar-lein yn rhoi llwyfan i lofnodwyr a rhanddeiliaid ofyn cwestiynau a rhannu dysgu. Bydd hyn yn helpu i feithrin dysgu a rennir a chaiff ei gynnal ar wefan IHCC.

Dylid cynnwys adroddiad misol o weithgaredd rhyngwladol mewn systemau adrodd cyfredol a'u bwydo i Brif Weithredwyr. Bydd adroddiad blynyddol ar weithgaredd rhyngwladol yn cael ei gynnwys mewn mecanweithiau adrodd cyfredol. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys adborth ar ganlyniadau, cynnyrch ac effaith. Yna dylid anfon hwn i'r IHCC.

OR4. Effaith Amgylcheddol

Nid yw pob partneriaeth iechyd rhyngwladol yn cynnwys teithio dramor, ond pan fydd hynny'n digwydd, mae'n rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod ymyriadau yn gynaliadwy yn ecolegol ac yn ymarferol. Bydd llofnodwyr y Siarter hon yn defnyddio arferion yr un mor gynaliadwy yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

OR5. Bodloni Safonau'r WHO ar Roddion

Gall caffael offer meddygol a chyflenwadau meddygol fod yn rhwystr i driniaeth feddygol effeithiol mewn gwledydd incwm isel. Mae'n rhaid dilyn Canllawiau'r WHO yn ymwneud â rhoi offer meddygol a chyflenwadau meddygol

er mwyn sicrhau bod rhoddion yn cael eu rhoi yn briodol ac yn ddiogel.

Mae canllawiau cynhwysfawr ar gyfer rhoi offer meddygol a chyflenwadau meddygol wedi cael eu datblygu gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol (THET).

OR6. Côt Ymarfer ar gyfer Recriwtio Rhyngwladol

Mae mudo gan weithwyr iechyd wedi cynyddu'n fyd-eang dros y blynyddoedd diweddar, yn arbennig o wledydd incwm isel sydd â systemau iechyd bregus yn barod. Mae'r DU, trwy'r Adran Iechyd, wedi ymrwmo i sicrhau bod arferion recriwtio moesegol yn gweithredu yn y GIG trwy gydymffurfio â'r Côt Ymarfer (CoP) ar gyfer Recriwtio Rhyngwladol. Mae'r CoP yn cysylltu â chanllawiau'r WHO ar recriwtio. Nod y CoP yw sefydlu a hyrwyddo egwyddorion ac arferion gwirfoddol ar gyfer recriwtio personél iechyd rhyngwladol yn foesegol a hwyluso'r gwaith o gryfhau systemau iechyd. Bydd yr IHCC yn rhoi cyngor ar broffiliau gwledydd lle bo angen.

OR7. Ymateb Dyngarol Brys Rhyngwladol

Mae Ymatebion i Drychinebau Dyngarol Brys yn cael eu llywio gan yr angen i gynorthwyo mewn argyfwng. Bydd llofnodwyr a rhanddeiliaid yn cael ystyriaeth deg i weithio gyda DfID trwy ymgysylltu ag ymdrechion wedi eu trefnu ar draws y DU i ddatblygu ymateb cydlynus yn seiliedig ar angen, wedi ei hwyluso gan Gofrestr Trawma Rhyngwladol y DU, a gynhelir gan UKMed (Adolygiad Ymateb Brys Dyngarol 2011) (gweler yr atodiad). Bydd y cyfle hwn yn cael ei hyrwyddo i'r staff.

OR8. Arweinydd Iechyd Rhyngwladol

Bydd enw cyswllt i bartneriaethau iechyd rhyngwladol gysylltu â'r IHCC a staff yn cael ei enwebu. Gallai fod yn swydd wirfoddol neu â thâl. Caiff hyn ei gefnogi gan adnodd ar-lein ar gyfer staff.

Arddangos Gwaith Partneriaeth Dwyochrog

RW1. Gwella Bywydau a Gwneud Dim Niwed

Bydd diwydrwydd a dyletswydd gofal yn cael ei gymhwyso wrth fod yn rhan o bartneriaeth, gyda'r defnydd darbodus o adnoddau yn seiliedig ar yr egwyddor o wneud dim niwed yn dilyn Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad y GIG. Diben canolog partneriaethau iechyd rhyngwladol yw gwella bywydau, iechyd a lles y rheiny sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i weithgaredd nad yw'n cyflawni'r uchelgeisiau hyn neu'n mynd yn eu herbyn ddod i ben ar unwaith.

Er mwyn sicrhau bod goblygiadau economaidd a chymdeithasol iechyd yn cael eu hystyried, dylid defnyddio penderfyniadau cymdeithasol y model iechyd.

RW2. Parch, Tegwch a Chydraddoldeb

Bydd parch ar y ddwy ochr rhwng partneriaid yn cael ei feithrin gyda phob parti yn y bartneriaeth yn gwbl gyfartal. Dylai'r partneriaid ystyried blaenoriaethau a dyheadau, eu hystyried wrth ddylunio a chyflenwi'r prosiect neu'r rhaglen. Dylai'r cyfathrebu fod yn glir ac yn rheolaidd trwy ddulliau a gytunir ar y cyd. Os bydd y cyfathrebu'n dirywio, dylid cymryd camau i adfer y berthynas. Ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw bartner neu unigolyn sy'n gysylltiedig â'r bartneriaeth na'i roi o dan anfantais. Bydd pob partner yn cael ei drin â pharch a phwysigrwydd cyfartal.

RW3. Rheoli Risg wrth Deithio'n Broffesiynol

Mae gan sefydliadau a phartneriaethau iechyd rhyngwladol gyfrifoldeb i sicrhau lles y rheiny sy'n teithio'n rhyngwladol at ddibenion gwaith. Mae'n rhaid i reoli risg gynnwys dogfennau yn cynnwys asesiad risg, gwybodaeth sylfaenol am y wlad yn cynnwys manylion cyswllt brys ac awgrymiadau ieithyddol sylfaenol. Mae'n rhaid trefnu yswiriant teithio priodol ar gyfer y rheiny sy'n teithio at ddibenion gwaith yn ogystal â threfniadau teithio a llety.

Cyfrifoldeb y gweithiwr **iechyd proffesiynol** yw peidio cymryd rhan mewn unrhyw ymddygiad peryglus ar leoliadau rhyngwladol.

RW4. Systemau Iechyd mewn Gwledydd Datblygol

Ni ddylai partneriaethau â systemau iechyd mewn gwledydd datblygol gynnig gofal iechyd amgen; dylent ymdrechu i ddatblygu gallu o fewn y gwasanaethau iechyd sydd eisoes yn bodoli trwy ddulliau cynaliadwy, y mae'n rhaid eu gweithredu gyda chefnogaeth ac ystyriaeth i systemau iechyd yn y wlad.

Pan fydd terfyn amser i'r partneriaethau o ran nodau penodol, mae'n rhaid nodi'r nodau hynny gael eu nodi'n glir cyn sefydlu'r prosiect yn llawn. Mae'n rhaid i fuddion y bartneriaeth iechyd rhyngwladol fod wedi eu bwriadu i ymestyn y tu hwnt i oes y partneriaethau, gyda chynlluniau ar gyfer olynu wedi eu sefydlu.

RW5. Nodi Cyfleoedd

Er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd gorau'n cael eu defnyddio yng Nghymru, bydd sefydliadau iechyd yn chwilio am gyfleoedd i dynnu cyllid i mewn a gweithio'n gydweithredol i gynyddu potensial y cynigion llwyddiannus.

RW6. Alltudiaeth

Gall sefydliadau **Alltud** roi darlun manwl i sefydliadau Cymru o'u gwledydd genedigol, a'u helpu i ddatblygu prosiectau. Dylai Alltudion ymgysylltu i roi cipolwg ar weithio gyda'r wlad bartner.



Arddangos Trefniadau Arfer Da

GP1. Ymarfer yn Seiliedig ar Ansawdd a Thystiolaeth

Mae'n rhaid defnyddio'r dystiolaeth orau posibl, trwy Ymarfer yn **Seiliedig ar Dystiolaeth**, mewn partneriaethau iechyd rhyngwladol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth ar gael o'r rhanbarth neu ranbarth cymharol, efallai fydd angen gwneud ymchwil i lywio prosiectau neu ymyriadau. Ni ddylid peryglu ansawdd gofal trwy ddiffyg tystiolaeth. Dylid rhannu'r dystiolaeth a'r dysgu.

GP2. Aseu Anghenion

Gall **aseu anghenion** helpu i bennu'r gofynion, a hefyd disgwyliadau'r prosiect. Pan fydd prosiectau a phartneriaethau'n cynnwys datblygu systemau iechyd gwlad, mae'n rhaid i aseu angen gael ei arwain gan ofynion y wlad bartner er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer partneriaeth neu brosiect newydd, yn arbennig pan mae'r wlad yn un incwm isel. Mae'n rhaid aseu anghenion ar gyfer pob prosiect newydd sy'n cael ei ddatblygu o fewn partneriaeth. Dylid ystyried Aseu Anghenion yn Seiliedig ar Asedau neu **Ddulliau Arfarnu Cyflym**.

GP3. Monitro a Gwerthuso

Mae'n rhaid i **fonitro a gwerthuso** gael ei integreiddio i bob prosiect a phartneriaeth. Mewn systemau iechyd gwledydd datblygol, gall sefydliadau Cymreig sy'n gweithio gyda phartneriaid mewn unrhyw leoliad incwm isel ddefnyddio 'Fframwaith Effeithiolrwydd Cymru Affrica'. Mae'n waith cydweithredol rhwng Cyswllt Cymunedau Cymru Affrica, Hub Datblygu Rhyngwladol Cymru, Rhwydwaith Sefydliadau Datblygu Rhyngwladol yn yr Alban (NIDOS) a Bond (Rhwydwaith Datblygiad Tramor Prydain), ac mae'n galluogi sefydliadau i adolygu eu gwaith yn erbyn egwyddorion arfer da ym maes datblygu rhyngwladol, gan ddefnyddio meincnodau sydd yn gyson ar draws y DU.



Mewn partneriaethau eraill, bydd trefniadau monitro a gwerthuso'n cael eu nodi sydd yn dilyn methodolegau sy'n cael eu cydnabod, sy'n briodol i'r gweithgareddau ac yn dderbyniol i bob parti.

GP4. Ymgysylltu â'r Sefydliad Cyfan trwy Ddinasyddiaeth Fyd-eang

Caiff y staff i gyd eu hannog i ddeall dilysrwydd ymgysylltu â'r agenda iechyd rhyngwladol. Gellir cyflawni hyn mewn sawl ffordd, fel hyfforddiant dinasyddiaeth fyd-eang, buddsoddi mewn cynnyrch Masnach Deg a gwaith cydweithredol gan ddefnyddio dulliau ar-lein.

Arddangos Trefniadau Llywodraethu Cadarn

Mae llywodraethu cadarn yn helpu i sicrhau cydymffurfio ag arfer da.

SG1. Trefniadau Ffurfiol

Os nad oes unrhyw gontract priodol arall wedi ei sefydlu, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys canlyniadau, dulliau, trefniadau atebolrwydd a threfniadau cyfathrebu cytûn yn helpu i ddangos eglurder y trefniadau hyn a rheoli disgwyliadau.

SG2. Risg mewn Partneriaethau

Mae partneriaethau yn cynnwys risgiau yn ogystal â buddion, gan wneud atebolrwydd a rennir ac asesiad o gynaliadwyedd hirdymor y prosiect yn hanfodol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd cyllid yn gyfyngedig, er na ddylid ei anwybyddu mewn unrhyw brosiect. Mae asesiadau risg yn caniatáu i fygythiadau posibl i'r prosiect a'r rheiny y mae'n effeithio arnynt i gael eu nodi.

SG3. Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Cost

Mae'n rhaid gwerthuso ac adolygu costau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. Os nad yw cyllid yn cael ei roi fel rhan o drefniant y bartneriaeth, gall y llofnodwyr ddymuno nodi arian o gronfeydd elusennol neu geisiadau grant i gefnogi gweithgaredd rhyngwladol. Lle y bo'n briodol, gellir creu cyllid hefyd trwy fentrau codi arian wedi eu trefnu, yn arbennig y rheiny sydd yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliad elusennol.

SG4. Effaith Adrodd

Mae'n rhaid llunio adroddiadau ar **effaith** prosiectau a gefnogir gan y sefydliad yn flynyddol. Mae'n rhaid i'r adroddiadau gynnwys gwybodaeth am gynnyrch a chanlyniadau'r prosiect. Mae cynnyrch yn ddefnyddiol am eu bod yn ffordd feintiol o bennu effaith prosiect, fel nifer y bobl a hyfforddwyd, lle mae canlyniadau yn rhoi ateb mwy ansoddol sydd o gymorth i bennu pa wahaniaeth y mae'r prosiect wedi ei wneud. Dylai'r rhain gynnwys canlyniadau a fwriadwyd neu nas bwriadwyd, a chanlyniadau cadarnhaol a negyddol. Gellir ychwanegu gwerth trwy ddefnyddio perthynas sydd eisoes yn bodoli.



Beth yw Llwyddiant?

Mae'r astudiaethau achos canlynol wedi cael eu dewis i ddangos yr ystod eang o bartneriaethau rhyngwladol yng Nghymru.

01 Partneriaeth Iechyd Ewropeaidd yn Arddangos y Defnydd o Dechnoleg i ddatblygu gofal iechyd

Rheoli Anhwylderau Iechyd Meddwl trwy Ddatblygiadau mewn Technoleg a Gwasanaethau (Mastermind) a Gofal Integredig ar gyfer Pobl Hŷn Eiddil trwy weithredu technoleg (CareWell): Bwrdd Addysgu Iechyd Powys.

Bruce Whitear, Cyfarwyddwr Cynllunio, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys

Yma ceir dwy enghraifft o brosiectau wedi eu hariannu gan yr UE sy'n cael eu gweithredu ym Mwrdd Addysgu Iechyd Powys.

Gweithio cydweithredol i wella gwasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys

Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Powys (PTHB) yn gweithio fel safle peilot ar gyfer y prosiectau Mastermind a CareWell. Datblygodd y cydweithrediad trwy gysylltiadau â sefydliad lleol yng Nghymru oedd â chysylltiadau Ewropeaidd yn barod. Roedd partneriaethau yng Nghymru â sefydliadau oedd eisoes yn gysylltiedig ag Ewrop yn galluogi PTHB i fod yn gysylltiedig â phrosiect Ewropeaidd ac mae wedi creu cyfleoedd ar gyfer prosiectau pellach wrth i PTHB ddechrau sefydlu rhwydweithiau ei hun.

Mae hon yn enghraifft o'r ffordd y gall defnyddio Cyllid Ewropeaidd fodloni anghenion lleol

Mae prosiect CareWell yn canolbwyntio ar ofal integredig ar gyfer pobl hŷn eiddil, gyda phwyslais penodol ar y defnydd o TG i gefnogi datblygiad gofal integredig. Y bobl hŷn yw'r rheiny sydd ag anghenion iechyd a gofal

cymdeithasol cymhleth, sydd mewn perygl mawr o gael eu derbyn i ysbty neu gartref gofal ac sydd angen ystod o ymyriadau lefel uchel oherwydd eu heiddilwch a'u clefydau cronig lluosog. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i leoliad PTHB am fod ganddi'r boblogaeth pobl hŷn sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.

Mae prosiect Mastermind eisoes wedi cael ei roi ar brawf ar draws Ewrop, a bydd yn ysgogi gweithredu Therapi Ymddygiad e-Wybyddol (e-CBT) ar draws PTHB. Maes o law, gall PTHB ddod yn esiampl ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar fodel cyflenwi wedi ei werthuso.

Strwythur CareWell a Mastermind

CareWell wedi ei strwythuro trwy arweinydd prosiect yng Ngwlad y Basg sydd wedi dod o hyd i reolwyr prosiect profiadol trwy ymgynghoriaeth yn arena'r UE i lunio cynnig ar ran y consortiwm ehangach, a hefyd i reoli'r gwaith o weithredu'r prosiect, a chydgyssylltu â'r UE at ddibenion adrodd. Mae'r consortiwm yn cynnwys y safleoedd peilot canlynol; Gwlad y Basg, Sbaen; Silesia Isaf, Gwlad Pwyl; Veneto a Puglia, yr Eidal; a Phowys, Cymru.



Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys partneriaid sy'n rhoi cymorth rheoli prosiect a phartner gwerthuso. Mae Mastermind yn dilyn model tebyg gyda nifer fawr o ranbarthau'n cymryd rhan. Bydd hefyd yn archwilio'r gwaith o weithredu gwasanaethau e-CBT sy'n benodol i iaith a diwylliant ar gyfer dinasyddion tramor sy'n byw mewn gwledydd yn yr UE a bydd yn creu fersiynau lleol o e-CBT (4 i gyd) ar gyfer gwledydd nad ydynt wedi eu cynrychioli yn y consortiwm er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno e-CBT mewn ardaloedd eraill o'r UE.

Mae CareWell a Mastermind yn cael eu hariannu trwy'r un ffrwd ariannu. Mae'r cyllid yn berthnasol iawn i anghenion lleol, gan fod llawer o'r meysydd y mae Cymru'n wynebu heriau yn eu cylch yn gyffredin ar draws Ewrop; yn yr achos hwn mae materion poblogaeth sy'n heneiddio gyda chyflyrau cronig lluosog a heriau o ran adnoddau yn themâu cyffredin y mae holl bartneriaid y safle peilot yng nghonsortiwym y prosiect yn eu hwynebu.

Bydd y ddau brosiect yn dilyn gweithdrefnau gwerthuso cadarn, gyda'r bwriad o rannu dysgu gyda rhanbarthau Ewropeaidd eraill ar ôl iddynt orffen. Mae gan bob prosiect gynllun cyflwyno a lledaenu ehangach cysylltiedig er mwyn cyfrannu at gynaliadwyedd tymor hwy a rhannu dysgu ar draws yr UE.

Buddion i boblogaeth Cymru

Ein gobaith yw y bydd y prosiect o fudd i GIG Cymru wrth i ni ddysgu o systemau iechyd eraill ar lefel uniongyrchol a gweithredol. Mae gweithio gyda'r prosiectau partner hyn yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ymweld a rhannu gyda gwledydd eraill yr UE mewn ffordd ymarferol a thrwy weithredu prosiectau gwasanaeth amser real, gan roi cyfle uniongyrchol i roi dysgu ar waith. Mae cyfranogiad hefyd yn cryfhau safle Cymru ar lwyfan yr UE, lle mae'r GIG yn dal yn uchel ei barch, ac mae gennym lawer i'w gynnig o ran y datblygiadau a'r gwelliannau yr ydym yn eu gwneud o ran cyflenwi gwasanaethau.

02 Partneriaethau Iechyd Indiaidd yn Arddangos Cryfhau Systemau Iechyd yn y Wlad

Sally Venn, Cyngorydd Meddygol Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae hon yn enghraifft sy'n arddangos sut y gall gweithio gyda systemau yn y wlad roi buddion gwirioneddol i gryfhau lefel y gofal a ddarperir i'r rheiny sydd fwyaf mewn angen.

Mae Gofal Iechyd Sylfaenol yn yr India heb ei ddatblygu ddigon gyda thuedd tuag at ofal arbenigol, drud mewn ysbytai. Mae'n wlad lle mae'r rhan fwyaf o gostau gofal iechyd yn cael eu talu gan y defnyddiwr, mae system arbenigol, cost uchel, yn rhoi'r tlawd o dan anfantais. Y rheiny sydd angen gofal iechyd fwyaf yw'r lleiaf tebygol o allu ei ddefnyddio – enghraifft glir o'r 'Ddeddf Gofal Wrthgyfartal'. Mae gan Gymru system sy'n cael ei harwain gan ofal iechyd sylfaenol cryf sy'n canolbwyntio ar rymuso ac ataliaeth. Mae gan Gymru, yn arbennig, hanes cryf o hyrwyddo cyfiawnder

cymdeithasol, yn cynnwys datblygu mentrau i fynd i'r afael â'r Ddeddf gofal wrthgyfartal.

Cefnogi a gwella'r system iechyd leol

Cafodd Ymarferwyr Gofal Sylfaenol o Gymru wahoddiad ffurfiol i ymuno â'r prosiect fel arbenigwyr ymgynghorol i'r rhaglen hyfforddiant Gweithiwr Iechyd gyda'r nod o gryfhau'r rhaglen a chynyddu gallu'r sefydliad i gyflenwi heb gymorth allanol. Mae'r Ymarferwyr wedi bod yn cefnogi Sefydliad Anllywodraethol yn yr India i ddatblygu rhaglen gweithiwr iechyd cymunedol, yn canolbwyntio ar ysgolion ac ymestyn allan i gymunedau ymylol. Mae gan Weithwyr Iechyd rôl driphlyg yn ymwneud at Ataliaeth, Adnabod salwch ac atgyfeirio'n briodol a Gofal a chymorth ar gyfer unigolion sy'n dioddef o salwch aciwt neu gronig.



Mae gweithwyr iechyd mewn sefyllfa unigryw i gysylltu cleifion â gwasanaethau'r llywodraeth, pan fydd y rhain yn bodoli ac, yn hynny o beth, yn cryfhau gallu systemau gofal iechyd lleol i gyrraedd anghenion meddygol y gymuned. Yn arbennig, maent yn gallu gweithredu fel eiriolydd ar gyfer unigolion sy'n cael anhawster i gael mynediad i'r gofal y mae ganddynt hawl iddo.

Monitro a Gwerthuso

Un o'n rolau penodol yw dylunio mecanweithiau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso parhaus. Ar hyn o bryd mae'r mecanweithiau fel a ganlyn:

- Penodi a hyfforddi mentoriaid ar gyfer y Gweithwyr Iechyd.
- Adroddiadau misol gan weithwyr iechyd a mentoriaid.
- Rhaglen o ymweld â gweithwyr iechyd yn y maes i asesu gwaith a heriau.
- Mae gwerthusiad mwy ffurfiol yn cael ei drafod ar hyn o bryd, gyda chynlluniau i ymgysylltu prifysgol Indiaidd leol i gefnogi'r sefydliad gyda'r dasg hon.

Caiff y dysg ei rannu trwy adroddiadau i roddwyr unigol a bwrdd mewnol, ynghyd â chylchlythyrau mewnol ac allanol a chyflwyniadau mewn cyfarfodydd amrywiol yn y sefydliad.

Gwaith cynaliadwy

Y nod yn y pen draw yw i'r Corff Anllywodraethol gynnal y rhaglen heb fewnbwn gan wirfoddolwyr, felly mae model 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn cael ei fabwysiadu. Mae'r ymarferwyr gofal syfaenol wedi gweithio gydag Ymddiridolaeth Rhwydwaith Partneriaethau Tramor (PONT) ac yn defnyddio'r profiad hwn i ymgorffori agweddau allweddol ar y system gofal iechyd.

Buddion i Gymru

Mae'r cysylltiad hwn rhwng Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru a Gweithwyr Iechyd yn yr India wedi rhoi llawer o fuddion gwirioneddol, yng Nghymru ac yn India. Gwelir hyn ar sawl ffurf, fel gwella sgiliau a ddatblygwyd gan ymarferwyr Cymru, sy'n golygu bod dealltwriaeth well o Ofal Sylfaenol yn cael ei fwydo'n ôl i'r system iechyd yng Nghymru a hefyd darpariaeth ofal well yn India, addysg well a darparu gofal hygyrch a fforddiadwy ar gyfer y rheiny sydd mewn angen gyda thua 60 o Weithwyr Iechyd wedi eu hyfforddi, 5 clinig rhanbarthol a 2 glinig symudol mewn gweithrediad.

03 Cyswllt Affricanaidd yn Arddangos Budd Ymgysylltu Sefydliadau mewn Partneriaethau Iechyd

Tei Sheraton, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Mamau Affrica, Arweinydd Clinigol Iechyd Rhyngwladol ac Anesthetydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae hon yn enghraifft o elusen fach yng Nghymru sydd wedi cael budd o fod yn bartner â sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt i gryfhau partneriaethau iechyd yn Affrica Is-Sahara.

Mae Mamau Affrica yn elusen addysgol feddygol a sylfaenwyd yng Nghaerdydd yn 2005 gan yr Athro Judith Hall (Pennaeth Adran, Anestheteg, Gofal Dwys a Meddyginiaethau Poen Ysbyty Athrofaol Cymru) a'r cadeirydd ar hyn o bryd yw Dr Tei Sheraton (Anesthetydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan). Nod yr elusen yw helpu i achub bywydau mamau a babanod newydd-anedig yn Affrica trwy gefnogi addysg pobl sy'n darparu gofal meddygol. Mae hyn yn golygu bod pobl leol yn cael eu grymuso a bod gofal ar gyfer menywod beichiog yn gynaliadwy. Fel y dywed y ddihareb Tsieineaidd "Give a man a fish and you feed him for a day; teach a man to fish and you feed him for a lifetime".

Ers i'r elusen ddechrau yn 2005, mae rhaglenni addysgol wedi cael eu cefnogi yn Benin, Togo, Liberia, Ethiopia, Tanzania, a Zambia. Mae Mamau Affrica yn cydnabod buddion ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau eraill sydd yn rhoi arbenigedd, sgiliau codi arian, adnoddau a brwdfrydedd i'r prosiectau hyn. Heb y partneriaethau hyn, ni fyddai Mamau Affrica wedi gallu cyflawni cymaint gyda chyn lleied. Mae'r partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr a chred Mamau Affrica bod y rhain yn ychwanegu gwerth ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig. Disgrifir isod fel y mae rhai o'r partneriaethau sydd wedi cefnogi'r gwaith dros y blynyddoedd er mwyn rhoi cyd-destun i'r ffordd y bydd ymgysylltu sefydliadol trwy'r siarter hon yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl yn Affrica ac yng Nghymru.

Wedi ei ysgogi gan anghenion y partner Affricanaidd

Mae pob un o brosiectau Mamau Affrica yn cael ei ysgogi gan anghenion y partneriaid Affricanaidd fel y nodir ganddynt. Mewn rhai gwledydd fel Benin, mae hyn wedi golygu cefnogi cydweithwyr trwy broses fentora i fod yn arweinwyr yn eu maes arbenigedd dewisol yn y wlad honno. Mae absenoldeb arbennig wedi cael ei gefnogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mewn gwledydd eraill fel Liberia, cefnogwyd adnewyddu hyfforddiant anesthesia gan nyrsys yn ogystal â chyrsgiau diweddar. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB) wedi darparu absenoldeb arbennig i'w gweithwyr er mwyn cefnogi'r prosiect hwn ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer cyfnod sabothol gan alluogi uwch anesthetydd ymgynghorol i weithio yn Liberia yn helpu i hyfforddi a mentora staff. Yn Zambia, mae'r fenter wedi gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ystafelloedd dosbarth p er solar sy'n galluogi gweithwyr gofal iechyd i gael mynediad i ddeunydd hyfforddi o ansawdd uchel mewn amgylchedd cynaliadwy. Mae Prifysgol Caerdydd wedi bod yn bartner hanfodol yn y gwaith hwn yn cyflwyno arbenigedd peirianeg i'r prosiect llwyddiannus hwn.

Peidiwch ailddyfeisio'r olwyn na dyblygu

Nod Mamau Affrica yw gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill a allai fod yn gweithio yn yr un ardal ddaearyddol. Yn Ethiopia, ffurfiodd Mamau Affrica bartneriaeth ag elusen Cyswllt Gwent, a gefnogwyd gan ABUHB, oedd â phrofiad hir o weithio yno. Yn Liberia, mae cysylltiadau agos yn bodoli gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio yn yr un maes (Fel Asiantaeth Datblygu'r Swistir) ynghyd â WHO a'r Weinyddiaeth Iechyd yn Liberia.

Lle mae adnoddau hyfforddiant eisoes yn bodoli, cânt eu defnyddio, gan weithio gydag eraill, i ddatblygu neu wella adnoddau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys cydweithrediad â Phrifysgol Tsieineaid Hong Kong (CUHK) a Liberia gan ddefnyddio cwrs hyfforddiant gofal dwys a ddatblygwyd ar gyfer systemau gofal iechyd datblygol (BASIC DHS). Mae cymorth wedi cael ei ddarparu gan Gymdeithas Anesthetwyr Prydain Fawr ac Iwerddon (AAAGBI) ac mae Mamau Affrica wedi defnyddio adnoddau hyfforddiant a ddatblygwyd ar gyfer lleoliadau heb lawer o adnoddau, fel cwrs anesthesia obstetrig SAFE a DVD e-safe.

Ceisiwch fod yn Gynaliadwy

Fel rhan o'r holl hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu, mae systemau i wwerthuso'r hyfforddiant yn cael eu cynnwys i'w galluogi i gael eu gwella mewn partneriaeth â chydweithwyr Affricanaidd. Mae'r rhaglenni'n cynnwys hyfforddi'r hyfforddwyr er mwyn i bobl leol gynnal yr hyfforddiant eu hunain gyda chymorth gan y prosiect os oes angen.

Rydym yn cydnabod bod gwaith Cysylltiadau Iechyd Rhyngwladol yn rhoi budd i'r GIG a thu hwnt

Mae Mamau Affrica, ABUHB a CUHK wedi cynnal cyrsiau hyfforddiant mewn gofal dwys yng Nghymru er mwyn i feddygon iau yng Nghymru ymgyswrtu â Gofal Dwys cyn dechrau gweithio dramor. Defnyddir y cyllid a godir wrth redeg y cyrsiau hyn i gefnogi hyfforddiant cyfwerth mewn gwledydd datblygol ar sail cwrs am gwrs.

Yn olaf, mae Ysgol Celf a Dylunio (CSAD) Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi bod yn bartner sefydliadol pwysig. Mae wedi codi arian sylweddol ac wedi teithio i Zambia i addysgu sgiliau celf a gwnio. Mae grymuso a sgiliau i fenywod yn hanfodol er mwyn i'r elusen hon gyflawni ei nod.



Diffiniad o Dermau Allweddol

Term	Diffiniad
Asesiad o Angen yn Seiliedig ar Asedau	Mae'r dull asedau yn gwerthfawrogi gallu, sgiliau, gwybodaeth, cysylltiadau a photensial mewn cymuned. Mae'r dull 'diffyg' mwy cyfarwydd yn canolbwyntio ar y problemau, yr anghenion a'r diffygion mewn cymuned. Mae'n dylunio gwasanaethau i lenwi'r bylchau a datrys y problemau. O ganlyniad, gall cymuned deimlo'n ddi-rym ac yn ddibynnol; gall pobl fod yn dderbynwyr goddefol gwasanaethau drud yn hytrach nag asiantau gweithredol yn eu bywydau eu hunain a bywydau eu teuluoedd. Ffynhonnell: IDeA
Côd Ymarfer (CoP) ar gyfer Recriwtio Rhyngwladol	Mae'r Côd Ymarfer yn adlewyrchu'r egwyddorion a'r meincnodau a nodir yng Nghôd Ymarfer Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), sy'n hyrwyddo egwyddorion ac arferion gwirfoddol wrth recriwtio gweithwyr gofal iechyd rhyngwladol yn foesebol o fewn aelod-wladwriaethau'r gymuned Ewropeaidd. Ffynhonnell: Cyflogwyr GIG
Yr Adran Datblygu Rhyngwladol (DfID)	Mae DfID yn arwain gwaith y DU i ddileu tlodi enbyd. Maent yn gweithio i ddileu'r angen am gymorth trwy greu swyddi, rhyddhau potensial merched a menywod a helpu i achub bywydau pan fydd argyfyngau dyngarol yn digwydd. Ffynhonnell: GOV.UK
Yr Adran Iechyd	Mae'r Adran Iechyd yn helpu pobl i fyw'n well am hwy. Mae'n arwain, yn llunio ac yn ariannu iechyd a gofal yn Lloegr, gan sicrhau bod gan bobl y gofal a'r driniaeth angenrheidiol, gyda'r tosturi, y parch a'r urddas y maent yn ei haeddu. Ffynhonnell: GOV.UK
Alltudion	Mae Alltudion yn grŵp o bobl sy'n byw y tu allan i'w gwlad enedigol.
Gwerthuso	Adolygiad trwyadl o brosiect neu raglen a all ystyried materion fel proses, perthnasedd, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, effaith a chynaliadwyedd. Ffynhonnell: THET
Ymarfer yn Seiliedig ar Dystiolaeth	Mae hwn yn ddefnydd cydwybodol, pendant a deallus o'r dystiolaeth orau sydd ar gael wrth wneud penderfyniadau am ofal cleifion unigol. Mae ymarfer meddygaeth yn seiliedig ar dystiolaeth yn golygu integreiddio arbenigedd clinigol unigol gyda'r dystiolaeth glinigol allanol orau sydd ar gael o ymchwil systematig. Ffynhonnell: Sackett et al. 1996.

Term	Diffiniad
Dinasyddiaeth Fyd-eang	Y syniad, yn ogystal â bod yn ddinasydd eich cymuned leol neu wlad, yw ei fod hefyd yn bosibl gweithredu fel dinasydd y byd. Mae dinasyddiaeth fyd-eang yn cydnabod bod pobl mewn gwledydd gwahanol yn gynyddol gysylltiedig â'i gilydd trwy fasnach, cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth. <u>Ffynhonnell: WCIA.</u>
Iechyd byd-eang	Mae hyn yn cyfeirio at faterion iechyd lle mae'r penderfyniadau yn amgylchynu, yn tensesilio neu'n anwybyddu ffiniau tiriogaethol taleithiau, ac felly y tu hwnt i allu gwledydd unigol i fynd i'r afael â nhw trwy sefydliadau domestig. Mae iechyd byd-eang yn canolbwyntio ar bobl ar draws y blaned gyfan yn hytrach na phryderon gwledydd penodol. Mae iechyd byd-eang yn cydnabod bod iechyd yn cael ei bennu gan broblemau, materion a phryderon sydd yn mynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol. <u>Ffynhonnell: Llywodraeth EM</u>
Bwrdd Iechyd	Mae saith Bwrdd Iechyd Lleol (BILL) Cymru bellach yn cynllunio, yn sicrhau ac yn cyflenwi gwasanaethau gofal iechyd yn eu hardaloedd.
Horizon 2020	Horizon 2020 yw rhaglen Ymchwil ac Arloesi fwyaf yr UE erioed gyda bron 80 biliwn o gyllid ar gael dros 7 mlynedd (2014 i 2020). Mae'n addo mwy o dorri tir newydd, darganfyddiadau ac enghreifftiau cyntaf trwy fynd â syniadau gwych o'r lab i'r farchnad. <u>Ffynhonnell: Comisiwn Ewropeaidd</u>
Iechyd rhyngwladol	Mae hyn yn ymwneud ag arferion, polisiau a systemau iechyd mewn gwledydd ar wahân i'ch gwlad chi ac yn pwysleisio'r gwahaniaethau rhwng gwledydd yn hytrach na'u helfennau cyffredin. <u>Ffynhonnell: Llywodraeth EM</u>
Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol	Mae partneriaeth iechyd rhyngwladol yn un sydd wedi ei seilio yng Nghymru mewn cydweithrediad â phartneriaid y tu hwnt i ffiniau Cymru. Gallai'r bartneriaeth gynnwys gwaith sy'n digwydd neu wedi digwydd dros gyfnod penodol neu lle nad oes dyddiad terfyn wedi ei bennu. Gallai fod gyda chymuned, sefydliad neu fudiad, gallai gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i waith gydag ymchwil, rhannu gwybodaeth, gwaith prosiect neu leoliadau/cyfnewidfeydd.
Incwm Isel	Mae economïau incwm isel wedi eu diffinio fel y rheiny â GNI y pen o \$1,045 neu lai yn 2013. <u>Ffynhonnell: Banc y Byd</u>
Nodau Datblygu'r Mileniwm (MDG)	Mae wyth MDG sy'n amrywio o haneru tlodi eithafol i atal lledaenu HIV/AIDS a darparu addysg gynradd gyffredinol, i gyd erbyn y dyddiad targed sef 2015. Mae'r MDG wedi symbylu ymdrechion digyffelyb i fodloni anghenion pobl dlotaf y byd. <u>Ffynhonnell: CU</u>
Monitro	Proses barhaus i fesur cynnydd prosiectau yn erbyn amcanion wedi eu diffinio ymlaen llaw, a chynnyrch a chanlyniadau wedi eu cynllunio. <u>Ffynhonnell: THET</u>

Term	Diffiniad
Asesu Anghenion	Diben asesu anghenion mewn gofal iechyd yw i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i greu newid sydd o fudd i iechyd y boblogaeth. Derbynnir yn gyffredinol, ond nid yn fyd-eang, bod hyn yn digwydd o fewn cyd-destun adnoddau cyfyngedig. <u>Ffynhonnell: BMJ</u>
Ymddiriedolaeth GIG	Ar hyn o bryd mae 3 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru â ffocws Cymru Gyfan. Y rhain yw Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ar gyfer gwasanaethau brys, Ymddiriedolaeth GIG Felindre sy'n cynnig gwasanaethau arbenigol mewn gofal canser ac lechyd Cyhoeddus Cymru.
Dulliau Arfarnu Cyflym	Mae Arfarnu Cyflym yn ddull sy'n defnyddio llawer o ddulliau a thechnegau gwerthuso i gasglu data yn gyflym ond yn systematig pan fydd amser yn y maes yn gyfyngedig. <u>Ffynhonnell: USAID</u>
Cynaliadwyedd	Cynnal rhywbeth ar lefel neu gyfradd benodol.
Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDG)	Nod yr SDG yw helpu i lywio'r gwaith o weithredu datblygu cynaliadwy a bydd yn datblygu ar yr MDG ac yn cydgyfeirio agenda ddatblygu 2015. <u>Ffynhonnell: CU</u>
Cenhedloedd Unedig (CU)	Mae'r CU yn sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd yn 1945 ar ôl yr Ail Ryfel Byd gan 51 o wledydd wedi ymrwmo i gynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol, datblygu cysylltiadau cyfeillgar rhwng gwledydd a hyrwyddo cynnydd cymdeithasol, safonau byw a hawliau dynol gwell. <u>Ffynhonnell: CU</u>
Cymru o Blaid Affrica	Ffocws ar gyfer ymdrechion Cymru i gyflenwi MDG y CU i haneru tlodi byd-eang erbyn 2015. <u>Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru</u>
Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070	Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070 o'r enw 'Cysylltiadau Iechyd GIG Cymru ag Affrica Is-Sahara a Systemau Iechyd Datblygol eraill' yn annog Prif Weithredwyr i sicrhau bod pob sefydliad GIG yn dangos ei ymrwymiad i gysylltiadau dramor a'i gefnogaeth o'r MDG yn y nodau y mae'n eu datgan.
Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)	WHO yw'r awdurdod cyfeirio a chydlynu ar gyfer iechyd yn system y CU. Mae'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth ar faterion iechyd byd-eang, llunio'r agenda ymchwil iechyd, sefydlu normau a safonau, cyfleu opsiynau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth, rhoi cymorth technegol i wledydd a monitro ac asesu tueddiadau iechyd. <u>Ffynhonnell: WHO</u>

Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad GIG

- Rhoi ansawdd a diogelwch o flaen popeth arall: darparu gofal o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ein cleifion bob amser.
- Integreiddio gwelliant i waith bob dydd a dileu niwed, amrywiadau a gwastraff.
- Canolbwyntio ar ataliaeth, gwella iechyd ac anghydraddoldeb fel elfennau allweddol o ddatblygu cynaliadwy, iechyd a lles gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.
- Gweithio mewn partneriaethau gwirioneddol gyda phartneriaid a sefydliadau a chyda'n staff.
- Buddsoddi yn ein staff trwy hyfforddiant a datblygiad, gan eu galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau a rhoi'r offer, y systemau a'r amgylchedd iddynt weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Ffynhonnell: GIG Cymru (2014)

Cofrestr Trawma y DU

Er mwyn canfod mwy am Gofrestr Trawma y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Helen Redmond

Ebost: helen@uk-med.org

Ffôn: 01612750463

Gwefan: www.uk-med.org

I gysylltu â'r IHCC:

Ebost:

International.health@Wales.NHS.UK

Ysgrifennwch at:

Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd,
Iechyd Cyhoeddus Cymru, Is-adran Ymchwil a Datblygu Polisi,
Adeilad Hadyn Ellis, Heol Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ

Gwefan:

www.internationalhealth.Wales.NHS.UK

Cyfeiriadau

British Medical Journal (1998) Needs assessment: from theory to practice BMJ 1998;316:1448 [\[ar-lein\]](#)

Comisiwn Ewropeaidd (2014) What is Horizon 2020? [\[ar-lein\]](#)

GOV.UK (2014) Ynglŷn â'r: Adran Datblygu Rhyngwladol (DfID) [\[ar-lein\]](#) GOV.UK (2014) Yr Adran Iechyd [\[ar-lein\]](#)

Llywodraeth EM (2008) Health is Global: A UK Government Strategy, 2008–13. Crown [\[ar-lein\]](#)

Humanitarian Emergency Response Review (2011) DfID [\[ar-lein\]](#)

IDeA (2010) A glass half-full: how an asset approach can improve community health and well-being [\[ar-lein\]](#)

International Organization for Migration (2013) International Migration, Health and Human Rights. Sefydliad Iechyd y Byd, Swyddfa Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig [\[ar-lein\]](#)

Cyflogwyr GIG (2014) Code of Practice for international recruitment [\[ar-lein\]](#)

GIG Cymru (2014) Values and Standards of Behaviour Framework [\[ar-lein\]](#)

Sackett DL, Rosenberg WMC, Gray JAM a Richardson WS (1996) Evidence Based Medicine: What it is and what it isn't, British Medical Journal [\[ar-lein\]](#)

Cynnal Cymru (2014) Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, Return from UN High Level Political Forum on Sustainable Development [\[crynodeb ar-lein\]](#) [\[adroddiad llawn ar-lein\]](#)

Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol (THET) (2014) What Difference are we making? [\[ar-lein\]](#)

CU (2014) The Millennium Development Goals. Adran Gwasanaethau'r We y CU, Adran Gwybodaeth Gyhoeddus [\[ar-lein\]](#)

CU (2014) The Sustainable Development Goals. Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig [\[ar-lein\]](#)

CU (2014) The UN at a glance. Cenhedloedd Unedig [\[ar-lein\]](#)

USAID (2010) Performance Monitoring and Evaluation TIPS: Using Rapid Appraisal Methods, Rhif 5 [\[ar-lein\]](#)

WCIA (2012) Council for Education in World Citizenship, Citizenship Education [\[ar-lein\]](#)

Cylchlythyr Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) 070 Cysylltiadau Iechyd GIG Cymru ag Affrica Is-Sahara a Systemau Iechyd Datblygol eraill [\[ar-lein\]](#)

Llywodraeth Cymru (2012) Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd [\[ar-lein\]](#)

Llywodraeth Cymru (2012) Cymru a'r Undeb Ewropeaidd: Strategaeth UE Llywodraeth Cymru [\[ar-lein\]](#)

Llywodraeth Cymru (2013) Cymru o Blaid Affrica [\[ar-lein\]](#)

World Action on Salt and Health (2014) Salt Reduction Saves Lives [\[ar-lein\]](#)

Sefydliad Iechyd y Byd (2004) Globalisation and Infectious diseases; A Review of the Linkages [\[ar-lein\]](#)

Sefydliad Iechyd y Byd (2013) Non Communicable Diseases Factsheet [\[ar-lein\]](#)

Sefydliad Iechyd y Byd (2014) About WHO [\[ar-lein\]](#)

Sefydliad Iechyd y Byd (2014) Social Determinants of Health [\[ar-lein\]](#)
